

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

---

# Prentisiaethau yng Nghymru

Chwefror 2018



[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: [www.cynulliad.cymru/SeneddESS](http://www.cynulliad.cymru/SeneddESS)

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddESS@cynulliad.cymru**

Twitter: **@SeneddESS**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Prentisiaethau yng Nghymru

Chwefror 2018



# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 28 Mehefin i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): datblygu economaidd; trafndiaeth; seilwaith; cyflogaeth; sgiliau; a gwaith ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Russell George AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Sir Drefaldwyn

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Hefin David AC**  
Llafur Cymru  
Caerffili



**Vikki Howells AC**  
Llafur Cymru  
Cwm Cynon



**Mark Isherwood AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gogledd Cymru



**Adam Price AC**  
Plaid Cymru  
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**David J Rowlands AC**  
UKIP Cymru  
Dwyrain De Cymru



**Lee Waters AC**  
Llafur Cymru  
Llanelli



**Joyce Watson AC**  
Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Hefin David AC**  
Llafur Cymru  
Delyn



**Vikki Howells AC**  
Llafur Cymru  
Castell-nedd

# Cynnwys

<b>Rhagair y Cadeirydd</b> .....	<b>5</b>
<b>Argymhellion</b> .....	<b>7</b>
<b>1. Cefndir yr ymchwiliad</b> .....	<b>9</b>
Crynodeb .....	9
Yr ymgynghoriad a'r dystiolaeth ysgrifenedig .....	9
Tystiolaeth lafar .....	9
<b>2. Mynediad at brentisiaethau</b> .....	<b>10</b>
Rhywedd .....	10
Prentisiaid ac anabledd .....	12
Prentisiaethau Iaith Gymraeg .....	15
Cefnogaeth i bobl o gartrefi incwm isel.....	17
<b>3. Cynnydd a phrentisiaethau lefel uwch</b> .....	<b>21</b>
Sicrhau continwwm hyfforddiant.....	21
A fydd y pwyslais newydd ar brentisiaethau lefel uwch yn niweidio'r sector gofal? .....	23
<b>4. Cyngor ar yrfaoedd</b> .....	<b>26</b>
Mynediad at wybodaeth gyrfaoedd annibynnol am gyrsiau galwedigaethol neu brentisiaethau mewn ysgolion .....	26
Gyrfa Cymru .....	30
Lleoliadau gwaith ar gyfer pob disgybl ysgol .....	30
Gwneud y Gwasanaeth Paru Prentisiaeth yn addas i'r diben .....	32
<b>Casgliadau</b> .....	<b>35</b>
<b>Atodiad A - Cylch gorchwyl</b> .....	<b>38</b>

---



## Rhagair y Cadeirydd

Ar ddechrau 2017, clywodd y Pwyllgor bryderon brys ynglŷn â'r Ardoll Brentisiaethau sydd ar ddod. Gyda'r dyddiad cyflwyno'n nesáu, gwnaethom benderfynu gwneud darn byr o waith yn edrych ar yr effaith y gallai'r ardoll ei chael yng Nghymru, a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i baratoi.

Oherwydd y cyfyngiadau amser a gafwyd yn sgil cyflwyno'r ardoll, roedd gan yr ymchwiliad hwnnw ffocws cul, ond wrth gymryd tystiolaeth clywsom lawer am agweddau ehangach ar brentisiaethau a oedd yn werth eu hystyried ymhellach - felly roedd yr ail ymchwiliad hwn yn ymgais i fynd i'r afael â'r materion hynny.

Er ein bod wedi'i nodi fel ymchwiliad i brentisiaethau, roedd y cylch gorchwyl yn eithaf eang ac yn ein galluogi i edrych ar faterion yn cynnwys cyngor ar yrfaeodded ac agweddau ar hyfforddiant galwedigaethol yn gyffredinol.


Rydym yn ddiolchgar i'r unigolion a'r sefydliadau a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor; mae eu mewnbwn wedi bod yn amhrisiadwy.

Mae llawer o bethau cadarnhaol ynglŷn â Phrentisiaethau yng Nghymru ond roedd rhai pethau annisgwyl. Roeddem wedi synnu bod nifer y prentisiaid anabl yng Nghymru lawer yn is na'r gyfradd yn Lloegr. Roeddem yn pryderu y gallai diffyg darparwyr fod yn atal pobl ifanc rhag cyflawni prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a chlywsom am y rhwystrau economaidd - cost teithio, siwt ar gyfer cyfweliadau ac ati - a all atal pobl ifanc rhag manteisio ar gyfleoedd.

Mae gwahaniaeth ystyfnig rhwng y rhywiau hefyd wrth inni drafod prentisiaethau. Mae Llywodraeth Cymru a'r rhanddeiliaid yn ymrwymedig i fynd i'r afael â hyn, ac yn cymryd camau i wneud hynny, ond mae'r cynnydd wedi bod yn araf. Nid yw'r broblem hon yn unigryw i Gymru.

Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom bryderon ynghylch y modd y mae cyngor ar yrfaeodded yn cael ei ddarparu mewn ysgolion. O ganlyniad i hyn, rydym wedi oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, i edrych yn fanylach ar rôl Gyrfa Cymru, a sut y mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r oedi hwn wedi rhoi sicrwydd inni fod gan y sefydliad gynllun credadwy, a'i fod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Nid yw'r adroddiad hwn yn nodi diwedd ein diddordeb mewn prentisiaethau a dysgu yn y gwaith. Ym mis Ebrill, bydd y Pwyllgor yn adolygu effaith yr Ardoll Brentisiaethau tua blwyddyn ar ôl ei chyflwyno, ac yn ddiweddarach y tymor hwn rydym yn cynllunio darn byr o waith sy'n edrych ar ddyfodol sgiliau yng Nghymru.

A handwritten signature in black ink that reads "Russell George". The signature is written in a cursive style with a long horizontal flourish underneath.

Russell George AC  
Cadeirydd - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau



## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r cymorth i fynd i'r afael â'r rhagfarnau a'r confensiynau ehangach ynghylch rhywedd a gyrfaedd yn dirywio, er mwyn sicrhau bod y cyfle ehangaf ar gael i bawb.....Tudalen 12

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu cynllun gweithredu clir sy'n benodol ar gyfer pobl anabl i fynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth o bobl anabl mewn prentisiaethau. .... Tudalen 15

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o gefnogaeth i gyflogwyr i godi ymwybyddiaeth ymhlith ystod ehangach o bobl ifanc o fanteision prentisiaethau. .... Tudalen 15

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gyfarfod ar frys â Cholegau Addysg Bellach a'r Coleg Cymraeg i drafod pa gymorth sydd ei angen i sicrhau bod digon o hyfforddwyr ar gael i gefnogi prentisiaethau cyfrwng Cymraeg A/NEU .....Tudalen 17

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru osod targed ar gyfer nifer y prentisiaethau cyfrwng Cymraeg - mae'r strategaeth Gymraeg newydd yn gosod targedau penodol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg cyn 16 oed, ond nid ar gyfer addysg ôl-orfodol.....Tudalen 17

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru greu cronfa galedi gystadleuol ar gyfer prentisiaid sydd ar y lefelau cyflog isaf neu greu consesiynau eraill, megis cardiau bws neu reilffyrdd rhatach, fel sydd ar gael i fyfyrwyr eraill.....Tudalen 20

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grant cyffredinol i dalu am gostau byw ar gyfer pob prentis, fel y bydd ar gael i fyfyrwyr prifysgolion Cymru o 2018/19.....Tudalen 20

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu peidio â gofyn am dargedau penodol ar gyfer pobl anabl, rhywedd, mynediad Cymraeg i brentisiaethau. Gallai hyn o bosibl arwain at ddiwylliant ticio blychau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn glir nad yw prentisiaid yng Nghymru eto yn gwbl gynrychioliadol o'r gymdeithas ehangach y maent yn dod ohoni. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor yn cwmpasu pob nodwedd warchodedig, a mynediad gan gymunedau incwm isel. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd gwneud y data hyn yn gyhoeddus yn arwain at ehangu mynediad at brentisiaethau i bawb yng Nghymru.....Tudalen 20

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol mewn perthynas â chyllido prentisiaethau lefel gradd yn y dyfodol a bod prifysgolion Cymru yn glir ynghylch sut y gallant ymgysylltu a chyfrannu at y tirlun prentisiaethau. .... Tudalen 22

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygu a chyflwyno prentisiaethau gradd ym mis Hydref 2018. .... Tudalen 23

**Argymhelliad 11.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau dwywaith y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru hyd nes y bydd y rhaglen Cyflogadwyedd newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2019. .... Tudalen 24

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru bennu dyddiad cau ar gyfer dechrau addysgu prentisiaethau lefel gradd a rhannu hyn gyda'r Pwyllgor a'r rhanddeiliaid. .... Tudalen 25

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa ddulliau sydd ganddi i annog pob partner i gymryd rhan lawn yn y prospectws ardal gyffredin. .... Tudalen 29

**Argymhelliad 14.** Dylai Estyn ystyried y ffordd orau o gynnwys yn ei arolygiadau argaeledd ac ansawdd cyngor ar gyrsiau galwedigaethol a hyfforddiant (gan gynnwys prentisiaethau) mewn ysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd edrych ar ba ddulliau sydd ganddi i gymhell ysgolion. Dylai Consortia Addysg Rhanbarthol ystyried pa gymorth a her y gallant eu darparu i ysgolion yn y maes hwn. .... Tudalen 29

# 1. Cefndir yr ymchwiliad

## Crynodeb

1. Yn 2017, cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ddarn byr o waith yn edrych ar gyflwyno'r Ardoll Brentisiaethau a'r effaith y byddai'n ei chael ar fusnesau yng Nghymru.
2. Rhoddodd yr ymchwiliad hwn gyfle i'r Pwyllgor ddilyn ystod o faterion a gododd yn ystod yr Ymchwiliad diweddar i'r Ardoll Brentisiaethau nad oeddent yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Ardoll Brentisiaethau ei hun.
3. Roedd hyn yn cynnwys materion fel:
  - Gwasanaeth Paru Prentisiaeth Gyrfa Cymru;
  - Y parch cydradd rhwng cymwysterau academaidd a galwedigaethol;
  - Hygyrchedd prentisiaethau i bobl o deuluoedd incwm isel; i bobl anabl;
  - Y rhwystrau i brentisiaethau;
  - Stereoteipio ar sail rhywedd;
  - Y gwaith o ddatblygu prentisiaethau lefel uwch; ac
  - Ymgysylltiad cyflogwyr.
4. Mae'r cylch gorchwyl llawn wedi'i nodi yn Atodiad A.

## Yr ymgynghoriad a'r dystiolaeth ysgrifenedig

5. Cynhaliwyd ymgynghoriad y Pwyllgor o ddydd Mawrth, 4 Ebrill 2017 i ddydd Mercher, 3 Mai 2017. Mae pob un o'r 26 o ymatebion i'w gweld ar **dudalen yr ymgynghoriad**.

## Tystiolaeth lafar

6. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar yn ei gyfarfodydd ar **17 Mai** a **7 Mehefin 2017**. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Julie James AC, y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth ('y Gweinidog') ar y pryd ar **7 Mehefin 2017**.
7. Ar ôl ystyried y dystiolaeth yn ystod Hydref 2017, gwahoddodd y Pwyllgor Gyrfa Cymru i roi rhagor o dystiolaeth ar **23 Tachwedd 2017**.

## 2. Mynediad at brentisiaethau

**8.** Mae'r bennod hon yn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas ag ystod o grwpiau gyda nodweddion penodol.

### Rhywedd

**9.** Mae'r ystadegau crai ar rywedd a phrentisiaethau'n amlwg.

**10.** Nododd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Chwarae Teg ystadegau a gynhyrchwyd gan Stats Cymru fod 1.6 y cant o brentisiaid adeiladu a 3.1 y cant o brentisiaid peirianeg yn fenywod, o'i gymharu â 96 y cant o brentisiaid gofal plant, dysgu a datblygu a 91 y cant o brentisiaid trin gwallt.<sup>1</sup>

**11.** Nododd Colegau Cymru yn ei dystiolaeth ysgrifenedig nifer o ymyriadau cadarnhaol a wneir gan randdeiliaid a'r llywodraeth fel ei gilydd, ond bod cynnydd wedi bod yn gyfyngedig:

“Despite a long track record of trying to address gender imbalance and stereotyping of particular occupations, progress in areas such as construction has been very limited. Taking apprenticeship learning programmes in construction in 2015-16 as an example: of the 4,675 foundation, apprenticeship and higher apprenticeships, 4,555 were male as compared to 120 females.”<sup>2</sup>

**12.** Nododd Colegau Cymru nad oedd tangynrychiolaeth yn ôl rhywedd a hil yn unigryw i Gymru, ond awgrymodd y gallai darparu arian ychwanegol ar gyfer recriwtio a chadw ymgeiswyr anhraddodiadol gan ddefnyddio taliadau-yn-ôl-canlyniadau fod yn ateb.

**13.** Nododd Chwarae Teg y derbynnir yn eang fod prentisiaethau'n parhau i fod yn benodol i un rhyw neu'r llall ac y cytunir y dylai camau i fynd i'r afael â hyn fod yn flaenoriaeth. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu y gallai targedau fod yn ateb:

“Targets should be put in place for providers to ensure that all of those engaged in delivering apprenticeships are actively addressing issues of

---

<sup>1</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 18 Chwarae Teg (ffigurau o Stats Cymru, Rhaglenni Dysgu ar gyfer Prentisiaethau Sylfaenol, Prentisiaethau ac Uwch-brentisiaethau. Fel ar 02/05/2017)

<sup>2</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 09 Colegau Cymru

gender stereotyping. This would ensure consistency of approach and provide focus for WG and providers.”<sup>3</sup>

**14.** Nododd y dystiolaeth gan Chwarae Teg hefyd fod Strategaeth Sgiliau Trafnidiaeth Llywodraeth y DU<sup>4</sup> yn cynnwys uchelgais i o leiaf 20 y cant o newydd-ddyfodiaid i brentisiaethau peirianeg a phrentisiaethau technegol yn y sector trafndiaeth fod yn fenywod erbyn 2020.

**15.** Rhoddodd Karen Higgins o Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru grynhoad o deimladau'r rhan fwyaf o randdeiliaid pan ymddangosodd gerbron y Pwyllgor:

“We’ve mentioned gender stereotyping; it’s still a challenge. I think a lot of people are doing a lot of hard work and making a lot of effort to try and address those issues, but it still feels like there’s a long way to go.”<sup>5</sup>

### Barn y Gweinidog

---

**16.** Dywedodd y Gweinidog fod angen i'r Llywodraeth wneud llawer mwy o waith ar rywedd:

“Figures look okay at a headline level in gender terms. We have equal numbers of women and men on apprenticeships. But when you go down a level, we’ve got the same problem we always have, which is that a large number of the women are in social care-type apprenticeships, and a large number of the men are in ‘hard’ type apprenticeships.”<sup>6</sup>

### Barn y Pwyllgor

---

**Casgliad 1.** Mae argaeledd data sy'n ymwneud â rhywedd wedi gwella ac ymddengys yn glir fod materion rhywedd o ran prentisiaethau'n cael eu deall, a bod awydd i fynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi bod yn araf.

---

<sup>3</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 18 Chwarae Teg

<sup>4</sup> Yr Adran Drafndiaeth, Transport Infrastructure Skills Strategy: building sustainable skills Moving Britain Ahead 2016

<sup>5</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 151

<sup>6</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 385

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r cymorth i fynd i'r afael â'r rhagfarnau a'r confensiynau ehangach ynghylch rhywedd a gyrfaoedd yn dirywio, er mwyn sicrhau bod y cyfle ehangaf ar gael i bawb.

## Prentisiaid ac anabledd

**17.** Mae gan un o bob pum person oedran gweithio yng Nghymru anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Er hynny, nododd tystiolaeth ysgrifenedig Remploy mai dim ond 2.7 y cant o ddysgwyr mewn darpariaeth dysgu yn y gwaith ac 1.3 y cant o brentisiaid yng Nghymru sy'n anabl. Mae hyn yn cymharu â 9 y cant yn Lloegr.

**18.** Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu bod problem gwahaniaethu strwythurol.

**19.** Mae Remploy yn awgrymu y gallai rhai rhesymau dros y ffigurau isel yng Nghymru gynnwys:

- diffyg ymwybyddiaeth o brentisiaethau gan rieni, cyflogwyr a dysgwyr;
- anawsterau wrth ddod o hyd i leoliadau gwaith addas;
- ychydig o fodelau rôl prentisiaeth ar gyfer pobl anabl; a'r
- gefnogaeth bresennol i ddysgwyr ddim yn cael ei defnyddio'n llawn.

**20.** O ganlyniad i hyn, awgrymodd Remploy:

“The Welsh Government could consider is the introduction of a target for work-based learning providers for the percentage of disabled people starting and completing apprenticeships.”<sup>7</sup>

**21.** Teimlai Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru y gellid gwella cyfranogiad pobl anabl, yn ogystal â chyfranogiad grwpiau lleiafrifol eraill drwy well ymwybyddiaeth o brentisiaethau yn gyffredinol.<sup>8</sup>

**22.** Roedd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin a Chanolbarth Cymru yn teimlo bod darn o waith i'w wneud:

“to identify what are the barriers for people with disabilities getting an apprenticeship offer from an employer...I think we could offer them

---

<sup>7</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 22 Remploy Cymru

<sup>8</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

support, working with Remploy, for example, to ensure that the employers know about what adaptations need to be made to make that offer to people.”<sup>9</sup>

**23.** Ategodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru hyn yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, lle roedd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi data manylach er mwyn i gasgliadau gael eu gwneud ynghylch hygyrchedd prentisiaethau.<sup>10</sup>

**24.** Dywedodd y Bartneriaeth Dysgu, Sgiliau ac Arloesi:

“a pre-apprenticeship programme would be well received, not least in making sure that, for some people, they are work-ready before they go on to a full apprenticeship programme. So, certainly, we would support that.”<sup>11</sup>

**25.** Nododd Remploy ei fod yn rhedeg prosiect ar hyd y llinellau hyn, sy'n cynnal cronfa gyson o ymgeiswyr anabl sy'n barod i fanteisio ar gyfleoedd wrth iddynt ddod ar gael. Ar hyn o bryd, cyflwynir y rhaglen hon ar ffurf 'anffurfiol iawn'. O ganlyniad i hyn, awgrymodd Remploy y gallai Llywodraeth Cymru geisio ffurfioli'r prosiect drwy gynllun peilot neu fenter newydd:

“it would be a cost-neutral way for the Welsh Government to increase the number of disabled apprentices.”<sup>12</sup>

**26.** Cyfeiriodd Remploy hefyd at ei adroddiad ar y cyd gyda Mencap, **Raising Aspiration: widening participation in Supported Internships**, a oedd yn adrodd ar fanteision cyfnod o gyflogaeth strwythuredig ar gyfer pobl anabl cyn eu cais am brentisiaeth.

**27.** Yn 2014, cyhoeddodd Estyn adroddiad thematig o'r enw **Rhwystrau rhag prentisiaeth**. Roedd yr adroddiad yn cynnwys canfyddiadau adolygiad i'r rhwystrau i bobl ag anabledau wrth ddechrau rhaglenni prentisiaeth. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y rhwystrau a wynebwr gan ddysgwyr o grwpiau

<sup>9</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 186

<sup>10</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 25 Cymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar

<sup>11</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 26 Partneriaeth Dysgu, Sgiliau ac Arloesi

<sup>12</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 22 Remploy Cymru

du a lleiafrifoedd ethnig. Cyhoeddwyd adroddiad dilynol, **Chwalu rhwystrau rhag prentisiaethau** yn 2015.

## Barn y Gweinidog

---

**28.** Yn ei phapur i'r Pwyllgor, nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi penodi hyrwyddwr i gynyddu cyfranogiad grwpiau gwarchoddedig ar brentisiaethau ac i groesawu amrywiaeth o fewn y rhaglen, ac roedd yn cynnal cynlluniau peilot:

“Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i ymgynghori'n well â grwpiau gwarchoddedig ynghylch rhaglenni prentisiaethau. ... Mae camau penodol yn cael eu cymryd, ar y cyd â sefydliadau arbenigol ehangach fel Remploy, er mwyn lleihau'r rhwystrau a wynebir gan y rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig o ran ymuno â'r rhaglen Prentisiaethau. Mae gwaith peilot wedi dechrau yng Nghymru gyda Remploy i baru cleientiaid ar y rhaglen Dewis Gwaith a chyfluoedd ar gyfer prentisiaethau yn eu hardal.”<sup>13</sup>

**29.** Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

“We're also working with some companies who are helping us train our employers to be what they call 'disability-confident employers'—so, actually helping them make the reasonable adjustments necessary...there's absolutely no reason why we shouldn't have as diverse an apprenticeship workforce as we have in any other area, and we've got a number of programmes running, which are pilots at the moment, with Remploy and others.”<sup>14</sup>

**30.** Yn ei llythyr dilynol i'r Pwyllgor, nododd y Gweinidog fod gwaith pellach i gwmpasu a threialu rhaglenni cyn-brentisiaeth yn mynd rhagddo:

“Mae ein cynllun prentisiaethau hefyd yn amlinellu sut y byddwn yn cwmpasu ac yn treialu rhaglenni cyn-prentisiaethau drwy Gymru a disgwyliwn wneud cyhoeddiadau am hyn yn y misoedd nesaf.”<sup>15</sup>

---

<sup>13</sup> Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **EIS(5)-14-17(p5)**, 7 Mehefin 2017

<sup>14</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 384

<sup>15</sup> Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **EIS(5)-16-17 (p6)**, 29 Mehefin 2017



---

## Barn y Pwyllgor

---

**Casgliad 2.** Mae'r gwahaniaeth rhwng y gyfran o brentisiaid anabl yng Nghymru o'i gymharu â'r nifer yn Lloegr yn drawiadol. Yn amlwg, mae gwaith i'w wneud i godi ymwybyddiaeth, ond mae'r bwlch mor fawr y dylid ystyried a oes angen targedau penodol.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu cynllun gweithredu clir sy'n benodol ar gyfer pobl anabl i fynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth o bobl anabl mewn prentisiaethau.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o gefnogaeth i gyflogwyr i godi ymwybyddiaeth ymhlith ystod ehangach o bobl ifanc o fanteision prentisiaethau.

## Prentisiaethau Iaith Gymraeg

**31.** Roedd Comisiynydd y Gymraeg yn teimlo nad oedd prentisiaethau cyfrwng Cymraeg wedi cael sylw digonol ac roedd yn tynnu sylw at y diffyg data clir a chyson yn y maes hwn. Dywedodd:

“Mae'r data cyhoeddus ynghylch defnydd y Gymraeg mewn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau'n benodol yn brin ac yn ddarniog.”<sup>16</sup>

**32.** Amlygodd hefyd bedwar rheswm posibl am y gyfradd isel ymddangosiadol o'r defnydd o Gymraeg mewn prentisiaethau a dysgu o fathau eraill yn y gwaith.

“Mae gwahanol ffactorau yn gallu dylanwadu ar ddefnydd y Gymraeg mewn rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau'n benodol, gan gynnwys diffyg galw gan ddysgwyr; diffyg cynnig rhagweithiol o ddarpariaeth Cymraeg neu ddwyieithog; diffyg aseswyr dwyieithog; a hyd a lled y ddarpariaeth Cymraeg a dwyieithog.”<sup>17</sup>

**33.** Amlygodd Urdd Gobaith Cymru (Yr Urdd) ei fod yn cynnig rhaglen brentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, nododd fod y sefydliad yn ei chael hi'n anodd sicrhau bod cymwysterau galwedigaethol ar gael i'w darparu a'u dilysu yn y Gymraeg.<sup>18</sup>

---

<sup>16</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 01 Comisiynydd y Gymraeg

<sup>17</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 01 Comisiynydd y Gymraeg

<sup>18</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 07 Urdd Gobaith Cymru

**34.** Teimlai'r Urdd, ymhlith pethau eraill, fod prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu cyfrwng Cymraeg ac yn dangos i bobl ifanc werth economaidd y Gymraeg.

**35.** Yn ei dystiolaeth lafar, amlygodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru y twf mewn dysgu Cymraeg a dwyieithog yng Nghymru - yn codi o 2.7 y cant i 12 y cant dros y pedair blynedd diwethaf. Dywedodd Jeff Protheroe:

“Providers will have, within certain sectors, targets to achieve in terms of bilingual and Welsh-medium provision within certain sectors such as construction, childcare and hospitality. So, targets do play a role in driving behaviours, and the network, to give them their dues, are very good at responding to those stimuli and changing their apprenticeship offer.”<sup>19</sup>

**36.** Adroddodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru:

“...what the employers are saying to us is they're having real difficulty in finding trainers who speak Welsh to be able to train the people. They've got the employees who can speak Welsh but they haven't got the trainers who can deliver the training through the medium of Welsh.”<sup>20</sup>

## Barn y Gweinidog

---

**37.** Nododd y Gweinidog gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i wella'r ddarpariaeth o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dysgu yn y gwaith yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor:

“...we've been working very hard with our provider network to make sure that we have good Welsh language provision across Wales, especially where the demand is higher. (...) The Have a Go stuff seems to really enthuse people.”<sup>21</sup>

---

<sup>19</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 17 Mai 2017, paragraff 221

<sup>20</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 162

<sup>21</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 388

---

## Barn y Pwyllgor

---

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwelliant sydd wedi bod yn y ganran o gyfleoedd dysgu yn y gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond mae bwlch o hyd rhwng y galw tebygol a'r gallu i'w gwrdd. Mae diffyg data cywir, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn ei gwneud hi'n anodd mynd i'r afael â'r mater hwn.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gyfarfod ar frys â Cholegau Addysg Bellach a'r Coleg Cymraeg i drafod pa gymorth sydd ei angen i sicrhau bod digon o hyfforddwyr ar gael i gefnogi prentisiaethau cyfrwng Cymraeg A/NEU

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru osod targed ar gyfer nifer y prentisiaethau cyfrwng Cymraeg - mae'r strategaeth Gymraeg newydd yn gosod targedau penodol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg cyn 16 oed, ond nid ar gyfer addysg ôl-orfodol.

## Cefnogaeth i bobl o gartrefi incwm isel

**38.** Amlygodd cartrefi incwm isel y gost ariannol o fynd i mewn i waith fel rhwystr mawr i fanteisio ar brentisiaethau. Er enghraifft, nododd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu:

“In some areas young people eligible for free school meals are half as likely to start a level three apprenticeship...Apprentices from low income families miss out on the financial support that is available to those in full time education or training, for example the Special Support Grant available to university students.”<sup>22</sup>

**39.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd cynrychiolydd o Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru:

“...one of the pieces of evidence that we have about people from lower-wage families getting into apprenticeships is about the distance they have to travel to work and the cost of travelling to work in relation to the amount of money they'd get paid from the apprenticeship wage.”<sup>23</sup>

---

<sup>22</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 20 Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu

<sup>23</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 187

**40.** Roedd eraill a gyfeiriodd at faterion sy'n ymwneud â chost cymryd rhan mewn prentisiaeth, yn arbennig y gost o deithio i le gwaith neu ddysgu, yn cynnwys Coleg Caerdydd a'r Fro, Estyn, y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, Coleg Sir Gâr, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a Grŵp Llandrillo Menai.

**41.** Nododd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y cyferbyniad rhwng y gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr, ac ar gyfer prentisiaid:

“...the Welsh Government’s new student finance support package for Higher Education is based on equivalency with the living wage while apprenticeship funding does not apply the same logic.”<sup>24</sup>

**42.** Awgrymodd Coleg Caerdydd a'r Fro y gallai taliadau ymlaen llaw helpu ymgeiswyr drwy rai o'r rhwystrau cychwynnol.

“...byddai cefnogaeth gyda theithio a chynhaliaeth, taliadau ymlaen llaw i dalu am fis cyntaf y gyflogaeth, a darparu dillad busnes addas ar gyfer cyfweliad a'r cyfnod cyflogaeth cyntaf, yn helpu'n sylweddol gyda chael gwared ar y rhwystrau sy'n atal dewis prentisiaethau.”<sup>25</sup>

**43.** Roedd y Brifysgol Agored yn argymhell creu bwrsariau neu gyllid caledi ar gyfer y rhai o gefndiroedd difreintiedig,<sup>26</sup> fel sydd ar gael i fyfyrwyr prifysgolion ac addysg bellach, i'w helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â dechrau prentisiaeth. Soniodd Grŵp Llandrillo Menai am yr effaith ar fudd-daliadau'r teulu ehangach pan fydd un o'r plant yn dechrau prentisiaeth.<sup>27</sup>

**44.** Yn ei thystiolaeth lafar, amlygodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru/Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ei waith gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid eraill i ddarparu cyllid penodol i gael pobl yn ôl i waith:

“If they haven’t got particular equipment to work on a construction site, we will provide them with that equipment. If they haven’t got an interview suit, there are funds so we can get them a suit to get them to that interview.”<sup>28</sup>

---

<sup>24</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 08 Ffederasiwn Busnesau Bach

<sup>25</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 14 Coleg Caerdydd a'r Fro

<sup>26</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 11 Y Bryffsgol Agored

<sup>27</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Grŵp Llandrillo Menai

<sup>28</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 195

---

## Barn y Gweinidog

---

**45.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn llobio am godi'r isafswm cyflog, gan ddisgrifio cyfraddau cyfredol fel "isel iawn":

"So, in terms of the transport costs, that's a real problem. We've maintained the education maintenance allowance, obviously, and we know that people use that for transport costs for college. We've got the financial hardship fund; we're in negotiations around that. The problem is if we supply it specifically as part of the apprenticeship programme, it's a taxable benefit. So, you actually get into some severe difficulties with that. So, we're actively looking at it and we're aware that it's a problem. We're also working with some of our employers about what their transport arrangements are. I have some anecdotal evidence around people holding on to old shift patterns that start at 6:00 without ever considering whether that means that people can't access public transport, for example. So, working with our employer base to ensure that they actually think actively themselves about how their workforce gets to them will be part of that, although it won't be all of it, because, obviously, there's a cost implication as well."<sup>29</sup>

---

## Barn y Pwyllgor

---

**Casgliad 4.** Mae tystiolaeth sylweddol bod rhwystrau ariannol yn broblem ac, mewn rhai achosion, yn atal llawer o bobl ifanc rhag dechrau prentisiaethau. Efallai mai dim ond ym mlwyddyn gyntaf prentisiaeth y bydd angen y gefnogaeth i oresgyn y rhwystr hwn, neu'r rhwystr canfyddedig, lle mae'r cyflog blynyddol cyfartalog yn debygol o fod yn llawer is na'r trothwy treth ar gyfradd sylfaenol. Er bod goblygiadau treth yn debygol o fod, nid yw'r Pwyllgor yn argyhoeddedig na ellir gorchfygu'r rhain.

**Casgliad 5.** Mae achos moesol cryf i Lywodraeth Cymru ddefnyddio lefelau tebyg o gymorth gyda phrentisiaid a fyddai ar gael i'w cyfoedion mewn addysg amser llawn. Mae angen i gydraddoldeb o ran parch rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd gael ei ategu gan gydraddoldeb o ran cefnogaeth i ddysgwyr.

---

<sup>29</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 387

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru greu cronfa galedi gystadleuol ar gyfer prentisiaid sydd ar y lefelau cyflog isaf neu greu consesiynau eraill, megis cardiau bws neu reilffyrdd rhatach, fel sydd ar gael i fyfyrwyr eraill.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grant cyffredinol i dalu am gostau byw ar gyfer pob prentis, fel y bydd ar gael i fyfyrwyr prifysgolion Cymru o 2018/19.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu peidio â gofyn am dargedau penodol ar gyfer pobl anabl, rhywedd, mynediad Cymraeg i brentisiaethau. Gallai hyn o bosibl arwain at ddiwylliant ticio blychau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn glir nad yw prentisiaid yng Nghymru eto yn gwbl gynrychioliadol o'r gymdeithas ehangach y maent yn dod ohoni. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor yn cwmpasu pob nodwedd warchoddedig, a mynediad gan gymunedau incwm isel. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd gwneud y data hyn yn gyhoeddus yn arwain at ehangu mynediad at brentisiaethau i bawb yng Nghymru.

### 3. Cynnydd a phrentisiaethau lefel uwch

#### Sicrhau continwwm hyfforddiant

**46.** Yn y gorffennol, roedd nifer o hyfforddeion yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gyfleoedd hyfforddi a oedd yn eu galluogi i barhau i ddatblygu. Roedd diffyg llwybr clir neu gontinwwm yn rhwystr ynddo'i hun i lawer.

**47.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Gweinidog yn ei chynlluniau i sefydlu continwwm o hyfforddiant:

- O Brentisiaethau lau 14 oed a hŷn (Lefelau 1 a 2), i Brentisiaethau Sylfaen;
- Prentisiaethau (Lefel 3);
- Prentisiaethau Lefel Uwch (Lefel 4 ac uwch) a
- Phrentisiaethau Lefel Gradd (Lefelau 5 a 6).

**48.** Yn ystod ei sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor, soniodd y Gweinidog am gynllun peilot llwyddiannus ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed, sydd wedi'i frandio yn Brentisiaethau lau. Yn ei llythyr dilynol at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog:

“Mae swyddogion yn y broses o gwmpasu cynnwys a chostau ehangu model Prentisiaeth lau Caerdydd i rai 14-16 oed drwy Gymru. Mae swyddogion wedi gwahodd colegau addysg bellach i fynegi diddordeb ac mae pob un wedi ymateb yn gadarnhaol.”<sup>30</sup>

**49.** Nododd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC):

“Arrangements for apprenticeships in Wales do not currently allow for universities being an apprenticeship provider in Wales. In England, at least 60 universities and other HE institutions are implementing or planning to implement degree level apprenticeships in the 2017/18 academic year and there are expected to be more than 7,600 degree apprentices in 2017/18.”<sup>31</sup>

**50.** Dywedodd CCAUC y byddai caniatáu i fyfyrwyr ennill cymhwyster prifysgol (hyd at, ac yn cynnwys, lefel 8) drwy lwybr galwedigaethol yn helpu i hybu

<sup>30</sup> Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **EIS(5)-16-17(p6)**, 29 Mehefin 2017

<sup>31</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 17 Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

cydraddoldeb o ran parch. Mae hefyd yn argymhell bod llwybrau galwedigaethol ac academaidd yn cael eu hyrwyddo ochr yn ochr â'i gilydd. Awgrymodd CCAUC hefyd y dylai fod llwybrau hyblyg sy'n caniatáu i unigolion newid rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd wrth iddynt symud ymlaen i gymwysterau lefel uwch.

**51.** Nododd y Brifysgol Agored:

“the non-availability of university accredited ‘Degree Apprenticeships’ in Wales is resulting in a failure to address vocational vs academic parity...We would hope this is addressed as a priority.”<sup>32</sup>

**52.** Dywedodd CCAUC fod angen penderfyniadau allweddol Llywodraeth Cymru o hyd mewn perthynas â chyllido prentisiaethau yn y dyfodol ar lefel gradd a'r rôl y gall prifysgolion ei chwarae yn y tirlun prentisiaeth cyffredinol.<sup>33</sup>

**53.** Mynegwyd pryder cryf gan Grŵp Llandrillo Menai, hyd yn oed lle roedd fframweithiau prentisiaeth lefel uwch yn bodoli (ar lefelau 3 a 4), nad oedd ymgeiswyr posibl bob amser mewn sefyllfa i ymgymryd â hwy:

“...key problem moving up the apprenticeship levels is that level 3 and higher require supervisory/management experience. Not all young people at 19+ have job roles that cover the level 3 or 4 competency requirements as they have not gained a promotion as yet.”<sup>34</sup>

## Barn y Pwyllgor

---

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi awydd Llywodraeth Cymru i greu llwybr clir i brentisiaid barhau mewn addysg alwedigaethol i lefel gradd a thu hwnt.

**Casgliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn nodi datblygiad parhaus prentisiaethau lefel gradd a'r nifer uwch o fframweithiau sydd ar gael yn Lloegr, o'i gymharu â Chymru. Er bod camau ar waith i fynd i'r afael â hyn, nid yw'n glir a yw'r cyflymdra yn ddigonol.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol mewn perthynas â chyllido prentisiaethau lefel gradd yn y

---

<sup>32</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 11 Y Bryfsgol Agored

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 17 Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

<sup>34</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Grŵp Llandrillo Menai



dyfodol a bod prifysgolion Cymru yn glir ynghylch sut y gallant ymgysylltu a chyfrannu at y tirlun prentisiaethau.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ddatblygu a chyflwyno prentisiaethau gradd ym mis Hydref 2018.

## A fydd y pwyslais newydd ar brentisiaethau lefel uwch yn niweidio'r sector gofal?

**54.** Mynegodd y rhanddeiliaid bryder y gallai'r ffocws newydd ar brentisiaethau lefel uwch niweidio eu gweithrediadau - yn enwedig lle maent yn dibynnu ar weithlu gyda llai o sgiliau. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, roedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi bod angen iddo:

“train around 27,000 level 2 workers in adult residential social care and care at home by 2023...Any removal of level 2 funding for our sector will have a negative impact on reaching the registration targets, the retention of the workforce and the care for vulnerable people.”<sup>35</sup>

**55.** O ganlyniad i hyn, roedd yn amau a yw gofynion y sector wedi'u hystyried yn llawn.

**56.** Pwysleisiodd Remploy, Centrica, Estyn a'r Comisiynydd Pobl Hŷn yr angen i gadw prentisiaethau lefel is. Gwnaeth Estyn yr achos mai'r rhain yw'r pwynt mynediad ar gyfer hyfforddiant pellach a chyflogaeth:

“There is a need to promote and market training programmes at level 1 and 2 because these programmes may lead eventually to the take-up of higher qualifications. There are many employment opportunities for learners with level 1 and 2 qualifications.”<sup>36</sup>

**57.** Tynnodd CCAUC sylw at y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu prentisiaethau lefel gradd yng Nghymru. Nododd ei fod wedi gofyn i sefydliadau gynllunio i ddatblygu cymwysterau lefel gradd ym meysydd peirianeg, gweithgynhyrchu uwch a TGCh.

**58.** Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod Llywodraeth Cymru **wedi gofyn i Estyn adolygu Prentisiaethau Uwch yn 2017/18** ac mae'n edrych ymlaen at weld canlyniadau'r adolygiad hwnnw.

<sup>35</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 05 Gofal Cymdeithasol Cymru

<sup>36</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Estyn

## Barn y Gweinidog

---

**59.** Yn ei phapur i'r Pwyllgor, nododd y Gweinidog fod 'twf sylweddol' wedi bod yn nifer y Prentisiaethau Uwch dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r papur yn nodi:

“Ar hyn o bryd, mae 59 o fframweithiau Prentisiaethau Uwch ar gael, o lefel 4 i 7. Mae sawl fframwaith Prentisiaethau Uwch yn cynnwys cymwysterau a gynigir gan brifysgolion. Roedd Prentisiaethau Uwch yn cynrychioli 25 y cant o'r rhai a gychwynwyd yn 2015/16, 4 pwynt canran yn uwch na'r ffigur ar gyfer 2014/156.”<sup>37</sup>

**60.** Tynnodd y papur hwnnw sylw hefyd at y canlynol:

“Ym mis Rhagfyr 2016, gofynnodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) am gynlluniau gan sefydliadau i ddatblygu a chyfuno cymwysterau lefel galwedigaethol a lefel gradd academaidd er mwyn creu prentisiaeth. Nododd CCAUC fod peirianeg, gweithgynhyrchu uwch a chyfrifiadura/TG yn benodol yn feisydd a oedd yn denu diddordeb...Mae polisi newydd yn cael ei lunio sy'n dod â phrentisiaethau ac addysg uwch at ei gilydd – dau sector sydd â gwahanol brosesau a diwylliannau – ac o'r herwydd rhaid cael y cyfraniadau a'r safbwyntiau ehangaf posib gan randdeiliaid.”<sup>38</sup>

## Barn y Pwyllgor

---

**Casgliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr oedi cyn cyhoeddi Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, yr oedd ei ddisgwyl yn wreiddiol ar ddechrau 2017, ac erbyn hyn fe'i disgwylir yn gynnar yn 2018.

**Argymhelliad 11.** Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau dwywaith y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru hyd nes y bydd y rhaglen Cyflogadwyedd newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2019.

**Casgliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r bwriad i sefydlu model Prentisiaid Iau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed, ac mae'n cefnogi nod y Gweinidog i'w gyflwyno ledled Cymru.

---

<sup>37</sup> Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **EIS(5)-14-17(p5)**, 7 Mehefin 2017

<sup>38</sup> Ibid

**Casgliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith o ddatblygu prentisiaethau lefel gradd ac yn nodi'r gwahaniaeth yn nifer y fframweithiau sydd ar gael yn Lloegr, o'i gymharu â Chymru.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru bennu dyddiad cau ar gyfer dechrau addysgu prentisiaethau lefel gradd a rhannu hyn gyda'r Pwyllgor a'r rhanddeiliaid.

**Casgliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi symudiad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu cymwysterau lefel uwch mewn egwyddor. Cred fod hyn yn hanfodol os yw Cymru am symud i economi gwerth uwch. Fodd bynnag, mae gan rhanddeiliaid bryderon clir mewn adrannau allweddol - yn enwedig sectorau sylfaenol fel gofal cymdeithasol - y gallai hyn arwain at ddiffyg cefnogaeth ar gyfer y cymwysterau lefel mynediad sydd eu hangen. Nid yw'n glir a yw'r Llywodraeth wedi darbwylo rhanddeiliaid yn llwyr bod ganddi raglen gwbl ddatblygedig i fynd i'r afael â'r pryderon hyn

## 4. Cyngor ar yrfaoedd

### Mynediad at wybodaeth gyrfaoedd annibynnol am gyrsiau galwedigaethol neu brentisiaethau mewn ysgolion

**61.** Mae hwn yn faes lle'r ymddengys mai ychydig iawn o gynnydd sydd wedi'i wneud ers adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes yn 2012, a oedd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

“Sicrhau bod pob person ifanc a'i rieni yn cael cyngor o safon dda am y cyfleoedd a gynigir gan brentisiaethau ymhell cyn i ddisgyblion ddewis eu hopsiynau ar gyfer TGAU a chyrsgiau galwedigaethol, ac annog ysgolion i hyrwyddo prentisiaethau fel dewis amgen hyfyw i addysg uwch.”<sup>39</sup>

**62.** Fodd bynnag, o ganlyniad i doriadau cyllid i Gyrfa Cymru ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, teimlai Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru:

“...particularly the role that Careers Wales advisers would have played in schools, as the professionals offering impartial careers advice and guidance. I think what we've seen is a roll-back of that service within schools.”<sup>40</sup>

**63.** Teimlai'r Bartneriaeth Dysgu, Sgiliau ac Arloesi fod diffyg cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd i bob disgybl yn broblem fawr.<sup>41</sup>

**64.** Gall cyngor ac arweiniad da ar yrfaoedd helpu i:

- Wella hygyrchedd prentisiaethau a chyfleoedd dysgu yn y gwaith, a lleihau stereoteipio ar sail rhywedd;
- Cynyddu nifer y prentisiaethau y manteisir arnynt;
- Gwella economi Cymru drwy sicrhau bod pobl yn cael eu hyfforddi gyda'r sgiliau cywir.

---

<sup>39</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, **Prentisiaethau yng Nghymru**, Hydref 2012, Argymhelliad 13

<sup>40</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 21 Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru

<sup>41</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 26 Partneriaeth Dysgu, Sgiliau ac Arloesi

**65.** Fodd bynnag, nododd y mwyafrif o'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad broblemau gydag ansawdd ac argaeledd cyngor ar yrfaeodd yng Nghymru. Amlygwyd nifer o faterion, gan gynnwys diffyg cynghorwyr gyrfaeodd hyfforddedig a diffyg gwybodaeth am brentisiaethau a hyfforddiant galwedigaethol gan staff ysgolion.

**66.** Mater arall a godwyd oedd y duedd i ysgolion annog disgyblion i astudio Safon Uwch, yn aml yn yr ysgol honno. Dadleuodd Coleg Caerdydd a'r Fro y gallai mwy o fynediad at ysgolion gan sefydliadau addysg bellach a sefydliadau dysgu yn y gwaith ehangu ystod y cyngor y mae pobl ifanc yn ei gael am yrfaeodd yn y dyfodol.

**67.** Adleisiwyd hyn gan Estyn:

“There needs to be better impartial advice and guidance regarding these pathways for learners in schools, and closer collaboration between schools, colleges, work-based learning providers and employers regarding career options.”<sup>42</sup>

**68.** Cred Coleg Caerdydd a'r Fro y gellid gwella nifer y prentisiaethau a'r cyfleoedd dysgu yn y gwaith pe byddai'r system ôl-16 yn fwy eglur:

“Mae'r ddarpariaeth Ôl 16 gyfredol yn ddryslyd ac felly'n anodd i ddysgwyr a'u rhieni ei deall. Mae cynllun Ôl 16 Lloegr wedi cyfrannu llawer at geisio datrys y broblem hon. Dylai cynllun tebyg fod ar gael yng Nghymru, i geisio symleiddio'r system.”<sup>43</sup>

**69.** Awgrymodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru y gallai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn arolygu/asesu lefelau gwybodaeth gyrfaeodd am gyrsiau galwedigaethol a hyfforddiant (gan gynnwys prentisiaethau) mewn ysgolion, a allai annog ysgolion i wella'r gwasanaethau cynghori a ddarperir ganddynt.

**70.** Cyhoeddodd Estyn **adroddiad** ym mis Medi 2017 ar sut y mae ysgolion yn cynllunio cyngor ar yrfaeodd yn sgil y trefniadau cwricwlwm newydd yn yr Hydref, fel rhan o'i **gylch gwaith ar gyfer 2016-17**.

**71.** Amlygodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ei fod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lunio prospectws ar-lein sy'n ceisio nodi'r holl opsiynau ôl-16 sydd ar gael i bobl ifanc. Fodd bynnag, nododd Shirley Rogers, Cyfarwyddwr

<sup>42</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Estyn

<sup>43</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 14 Coleg Caerdydd a'r Fro

Cyflenwi Gwasanaethau yn Gyrfya Cymru fod hyn yn ddibynnol ar ddarparwyr yn rhoi eu gwybodaeth ar y prospectws hwnnw, nad yw bob amser yn digwydd.<sup>44</sup>

**72.** Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor gyda Phrentisiaid yn BT, dywedodd nifer wrthym eu bod wedi dechrau cyrsiau prifysgol, ac mewn rhai achosion wedi'u cwblhau, oherwydd eu bod wedi teimlo mai dyna'r unig gyfle ar gael, ac am nad oeddent yn gwybod am brentisiaethau.

**73.** Mae gan gyngor gwell ar yrfaedd i bobl ifanc y potensial i leihau'r amser a gaiff ei wastraffu a'r arian a gaiff ei wario gan bobl ifanc sy'n dechrau cyrsiau nad ydynt y ffordd fwyaf addas iddynt ddatblygu eu bywydau.

## Barn y Gweinidog

---

**74.** Nododd papur y Gweinidog i'r Pwyllgor, cyn ei phresenoldeb, o ganlyniad i'r llythyr cylch gwaith a gyflwynwyd i Gyrfya Cymru ar gyfer 2017-18, ei bod yn disgwyl gweld lefelau uwch o ymgysylltiad a rhyngweithio â phobl ifanc mewn addysg.

**75.** Mewn tystiolaeth lafar, nododd swyddog o Lywodraeth Cymru fod Gyrfya Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ac wedi llunio strategaeth newydd ar gyfer y dyfodol sy'n rhoi mwy o ymdrech ac egni i weithio gyda phobl ifanc ac ysgolion:

“Over the last few years, the ratio of careers advisers per school has fallen. And this year, Careers Wales are actively working to put capacity back into the system earlier on... So, the target really this year is to ensure that all young people in key stage 4 receive the support that they need in order to make a successful post-16 transition.”<sup>45</sup>

**76.** Yn ei llythyr dilynol i'r Pwyllgor, nododd y Gweinidog yn fanylach y targedau y bydd Gyrfya Cymru yn gweithio iddynt. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Bydd athrawon neu gynghorwyr Gyrfya Cymru yn dangos i bob dysgwr ym Mlwyddyn 9 sut i gael cymorth a gwybodaeth gan Gyrfya Cymru.
- Bydd Gyrfya Cymru yn cynorthwyo gyda phob digwyddiad i rieni ym Mlynnyddoedd 9/11.

---

<sup>44</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 17 Mai 2017, paragraff 8

<sup>45</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 286

- Bydd pob dysgwr ym Mlwyddyn 11 yn rhan o lwyth achosion Cynghorwr Gyrfa tan y bydd y dysgwr wedi setlo yn ei leoliad ôl-16.<sup>46</sup>

**77.** Pan holwyd y Gweinidog a fyddai'n ddefnyddiol bod yn llawer mwy llym o ran ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyflwyno'r math hwn o gysylltiad eang â byd busnes, ac i'w gwerthuso arno, atebodd:

“There is something about how you're evaluated and people working to the evaluation tool, so we do need to make sure that schools are properly rewarded, if you like, for getting people into the right vocational pathways, as well as into the right academic pathways, and that's an ongoing discussion.”<sup>47</sup>

## Barn y Pwyllgor

**Casgliad 12.** Mae angen ymyrraeth gynharach wrth ddarparu cyngor annibynnol ar yrfaedd i ddisgyblion cyn iddynt wneud eu dewisiadau TGAU. Nid yw'n glir sut y dylid darparu hyn.

**Casgliad 13.** Yn yr hinsawdd gyfredol, ymddengys yn annhebygol y bydd y cyrff sy'n ymwneud yn bennaf â chodi ymwybyddiaeth o brentisiaethau a'u buddion - e.e. Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Gyrfa Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru - yn gallu manteisio ar unrhyw adnoddau ychwanegol i wneud y gwaith hwn.

**78.** Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru mewn tystiolaeth nad yw pob darparwr ôl-16 wedi cofrestru ar gyfer y prospectws ardal gyffredin. Byddai'r adnodd hwn yn cael ei wella'n fawr drwy sicrhau bod pob partner yn cymryd ymagwedd ragweithiol tuag at ychwanegu ei fanylion.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pa ddulliau sydd ganddi i annog pob partner i gymryd rhan lawn yn y prospectws ardal gyffredin.

**79.** Er bod y Pwyllgor yn nodi'r pwyslais newydd gan Gyrfa Cymru i gefnogi ysgolion wrth ddarparu cyngor ar yrfaedd, gellir gwneud mwy.

**Argymhelliad 14.** Dylai Estyn ystyried y ffordd orau o gynnwys yn ei arolygiadau argaeledd ac ansawdd cyngor ar gyrsiau galwedigaethol a hyfforddiant (gan gynnwys prentisiaethau) mewn ysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd edrych

<sup>46</sup> Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **EIS(5)-16-17(p6)**, 29 Mehefin 2017

<sup>47</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 310

ar ba ddulliau sydd ganddi i gymell ysgolion. Dylai Consortia Addysg Rhanbarthol ystyried pa gymorth a her y gallant eu darparu i ysgolion yn y maes hwn.

## Gyrfa Cymru

**80.** Yn dilyn ei sesiwn gychwynnol gyda Gyrfa Cymru, ac o ystyried rhai o'r beirniadaethau o ganllawiau ar yrfaoedd, mynegodd aelodau'r Pwyllgor bryderon ynghylch a oedd gan y sefydliad y cynllun cywir ar waith i ymdrin â'r heriau a wynebir ganddo.

**81.** Cafodd y Pwyllgor ei gysuro'n fawr gan berfformiad y Prif Weithredwr Dros Dro, Graham Bowd, a'r Cadeirydd, Debra Williams, pan oeddent gerbron y Pwyllgor ym mis Tachwedd.

**82.** Mae'r gostyngiad dramatig mewn cyllid ar gyfer Gyrfa Cymru dros y pum mlynedd diwethaf wedi gweld nifer ei staff yn haneru. Mae hyn wedi arwain yn naturiol at bethau yr oedd y sefydliad yn arfer eu gwneud, ddim yn rhan o'i gylch gwaith craidd mwyach.

**83.** Mae strategaeth tair blynedd y sefydliad, Newid Bywydau, yn pwysleisio tair swyddogaeth graidd:

- Cyngor i bobl ifanc sy'n mynd i mewn i ddysgu ôl-16;
- Digiddeiddio gwasanaethau;
- Cefnogi ysgolion a darparwyr eraill i roi cyngor.

## Barn y Pwyllgor

---

**Casgliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ac yn cefnogi'r ymagwedd gydgysylltiedig gan Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y ddogfen strategaeth Newid Bywydau. Dull tair blynedd yw hwn a bydd yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau cyllid a chymorth cyson i'r strategaeth drwy gydol y cyfnod o dair blynedd os yw am lwyddo.

## Lleoliadau gwaith ar gyfer pob disgybl ysgol

**84.** Mae tystiolaeth anecdotaidd (yn ogystal â thystiolaeth y Pwyllgor) bod nifer y lleoliadau gwaith ar gyfer disgyblion ysgol wedi gostwng yn ddramatig ers i'r cyfrifoldeb gael ei dynnu oddi wrth Gyrfa Cymru i hwyluso cyfleoedd lleoliadau gwaith i ddisgyblion ysgol; mae Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn cynnal asesiadau risg o leoliadau gwaith ar gyfer ei raglenni hyfforddiant ei hun.



**85.** Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gref hefyd y gall lleoliadau gwaith chwarae rôl bwysig wrth helpu pobl ifanc i ystyried opsiynau galwedigaethol. Er enghraifft, nododd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fod hyrwyddo lleoliadau gwaith wedi bod yn “rhagflaenydd cadarnhaol i gefnogi'r bobl hynny o gefndir incwm isel i brentisiaethau”.<sup>48</sup>

**86.** Mae'r cwricwlwm cyfredol yn cynnwys fframwaith **"Gyrfaedd a'r Byd Gwaith"**, sy'n nodi cyfres o ddeilliannau dysgu sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Ond nid yw hyn yn mynd cyn belled â gwneud lleoliadau gwaith gwirioneddol yn ofynnol. Beth bynnag, mae'r cwricwlwm yn cael ei ddiwygio'n sylfaenol yn dilyn yr **Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cwricwlwm ac Aseu yng Nghymru gan yr Athro Donaldson**. Hefyd, nid yw Adolygiad Donaldson yn argymhell cyfleoedd lleoliadau gwaith i bob myfyriwr.

**87.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Gyrfa Cymru fod ef yn peidio â bod yn uniongyrchol gysylltiedig â chydlynu lleoliadau gwaith i fyfyrwyr yn 'golled enfawr.' Aeth ei gynrychiolydd ymlaen i nodi:

“I think the intention was that our withdrawal from that service would be replaced by the wider careers family, namely schools, in delivering that service. Schools have their own agendas in terms of budget, priorities, et cetera. I think we're seeing now that us withdrawing hasn't been matched by something coming back in. But I would agree that work experience is hugely critical to this agenda.”<sup>49</sup>

**88.** Dywedodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru fod y lleihad hwn mewn lleoedd profiad gwaith wedi cael effaith andwyol.<sup>50</sup>

**89.** Amlinellodd Gyrfa Cymru ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol, sy'n cynnwys datblygu cronfa ddata ymgysylltu â chyflogwyr a elwir y “*Gyfnwidfa Addysg Busnes*”. Bydd y gronfa ddata hon yn cael ei llenwi â manylion am gyflogwyr sy'n barod i weithio gydag ysgolion i gefnogi'r agwedd ar y byd gwaith yn y cwricwlwm. Yna byddai ysgolion yn gyfrifol am ymgysylltu â'r cyflogwyr hynny yn y ffordd orau iddynt hwy.

<sup>48</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 15 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol - Gogledd Cymru - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

<sup>49</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 17 Mai 2017, paragraff 96

<sup>50</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 17 Mai 2017, paragraff 166

## Barn y Gweinidog

---

**90.** Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog ei bod am osgoi'r profiad gwaith clasurol lle mae pobl ifanc yn eistedd mewn cornel ac yn gwneud coffi:

“One of the tasks for Careers Wales, working alongside the regional skills partnerships, and in conjunction with things like Business Class and so on, will be to produce a toolkit that a smaller firm can use and know that, if they offer that week's work experience to somebody, it will be a worthwhile week to have and it won't be just, 'Stand over there and make coffee', for a week. I think it puts a lot of smaller firms off. They don't want to give that poor experience, so they'd rather not give it at all.”<sup>51</sup>

**Casgliad 15.** Mae'r dystiolaeth yn dangos y pwysigrwydd y mae rhanddeiliaid yn ei roi ar brofiad gwaith cyn 16 oed ac mae'r Pwyllgor yn pryderu bod nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan wedi gostwng yn sydyn.<sup>52</sup>

**Casgliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y Gyfnewidfa Addysg Busnes yn cael ei chyflwyno'n ddiweddarach eleni, a bydd yn cymryd diddordeb brwd mewn p'un a yw hi'n llwyddo i annog busnesau ac ysgolion i gydweithio i gynnig mwy o leoliadau profiad gwaith ystyrlon.

## Gwneud y Gwasanaeth Paru Prentisiaeth yn addas i'r diben

**91.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad yn adroddiad 2012 yn ymwneud ag effeithiolrwydd y Gwasanaeth Paru Prentisiaeth. Gwnaed sylwadau helaeth ar ymarferoldeb a phoblogrwydd y Gwasanaeth Paru Prentisiaeth presennol yn ystod yr ymchwiliad. Teimlwyd yn gyffredinol nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n dda gan gyflogwyr na darpar brentisiaid.<sup>53</sup>

**92.** Trafododd rhai o'r rhanddeiliaid yn uniongyrchol y materion sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Paru Prentisiaeth, a gynhelir ar wefan Gyrfa Cymru. Nid yw Grŵp Llandrillo Menai yn ystyried bod y Gwasanaeth yn addas i'r diben.<sup>54</sup> Mae'n dadlau bod nifer o broblemau gyda'r gwasanaeth, gan gynnwys nad yw'n cael ei

---

<sup>51</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 332

<sup>52</sup> 2010-11, 31,000 o brofiadau gwaith, ac yn 2013-14, 23,000. FFYNHONNELL

<sup>53</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Menter a Busnes, **Prentisiaethau yng Nghymru**, Hydref 2012

<sup>54</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 19 Grŵp Llandrillo Menai

ddefnyddio gan bobl dros 18 oed ac na chaiff ei hyrwyddo'n annibynnol ar wefan ehangach Gyrfa Cymru. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn nodi bod y Gwasanaeth Paru Prentisiaeth cyfredol yn drafferthus ac yn anodd i gyflogwyr a'r prentisiaid posibl gwblhau'r manylion llawn.<sup>55</sup> Mae Coleg Sir Gâr yn nodi bod barn cyflogwyr ar y Gwasanaeth yn llai na ffafriol, oherwydd yr anhawster y maent ei chael yn ei ddefnyddio. Mae Coleg Sir Gâr hefyd yn nodi bod cyflogwyr yn ystyried bod y Gwasanaeth yn llai effeithiol na dulliau hysbysebu mwy traddodiadol.<sup>56</sup> Galwodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r Gwasanaeth Paru Prentisiaeth.<sup>57</sup>

**93.** Yn wahanol i'r safbwyntiau hyn, dywed Estyn:

“Generally the apprenticeship matching service works well, but this relies on the learners being aware of apprenticeships in order for them to keep themselves informed of apprentice recruiters. Feedback from employers indicates that they are content with the standard of applicants that they receive.”<sup>58</sup>

## Barn y Gweinidog

**94.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywed y Gweinidog:

“Adolygwyd y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau fel rhan o'r broses o werthuso Prentisiaethau Dysgu Seiliedig ar Waith 2011-2014. Ers hynny, rydym wedi bod yn edrych ar ffyrdd eraill o ymgysylltu â phobl ifanc, drwy Facebook, rhwydweithio cymdeithasol a Twitter.”<sup>59</sup>

**95.** Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

“we have a problem with the apprenticeship matching service, which I know Members will be familiar with, and which hasn't been working well, and we will be completely redoing that.”<sup>60</sup>

**96.** Nododd y Gweinidog fod y Gwasanaeth Paru Prentisiaeth yn cael ei ddatblygu yn wasanaeth gwell ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain:

<sup>55</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 14 Coleg Caerdydd a'r Fro

<sup>56</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 02 Coleg Sir Gâr

<sup>57</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 08 Ffederasiwn Busnesau Bach

<sup>58</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 12 Estyn

<sup>59</sup> Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, **EIS(5)-14-17(p5)**, 7 Mehefin 2017

<sup>60</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 285

“...we’re also trying to corral all of the offer of apprenticeships into a place where people can go, because at the moment what you’ve got is live vacancies only. That’s all very well, but, if you’re trying to plan for two years’ time what you want to do, that’s no good to you. What you need is the range of apprenticeships on offer, even if there aren’t live vacancies at the moment, and so on.”<sup>61</sup>

## Barn y Pwyllgor

---

**Casgliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad clir y Gweinidog i wella'r Gwasanaeth Paru Prentisiaeth. Mae'r dystiolaeth yn glir bod hyn yn angenrheidiol a'i bod yn hen bryd gwneud hyn. Bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb brwd yn natblygiad y gwasanaethau.

---

<sup>61</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Cofnod y Trafodion, 7 Mehefin 2017, paragraff 339

## Casgliadau

**Casgliad 1.** Mae argaeledd data sy'n ymwneud â rhywedd wedi gwella ac ymddengys yn glir fod materion rhywedd o ran prentisiaethau'n cael eu deall, a bod awydd i fynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi bod yn araf.  
..... Tudalen 11

**Casgliad 2.** Mae'r gwahaniaeth rhwng y gyfran o brentisiaid anabl yng Nghymru o'i gymharu â'r nifer yn Lloegr yn drawiadol. Yn amlwg, mae gwaith i'w wneud i godi ymwybyddiaeth, ond mae'r bwlch mor fawr y dylid ystyried a oes angen targedau penodol..... Tudalen 15

**Casgliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwelliant sydd wedi bod yn y ganran o gyfleoedd dysgu yn y gwaith a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ond mae bwlch o hyd rhwng y galw tebygol a'r gallu i'w gwrdd. Mae diffyg data cywir, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn ei gwneud hi'n anodd mynd i'r afael â'r mater hwn.....Tudalen 17

**Casgliad 4.** Mae tystiolaeth sylweddol bod rhwystrau ariannol yn broblem ac, mewn rhai achosion, yn atal llawer o bobl ifanc rhag dechrau prentisiaethau. Efallai mai dim ond ym mlwyddyn gyntaf prentisiaeth y bydd angen y gefnogaeth i oresgyn y rhwystr hwn, neu'r rhwystr canfyddedig, lle mae'r cyflog blynyddol cyfartalog yn debygol o fod yn llawer is na'r trothwy treth ar gyfradd sylfaenol. Er bod goblygiadau treth yn debygol o fod, nid yw'r Pwyllgor yn argyhoeddedig na ellir gorchfygu'r rhain. .... Tudalen 19

**Casgliad 5.** Mae achos moesol cryf i Lywodraeth Cymru ddefnyddio lefelau tebyg o gymorth gyda phrentisiaid a fyddai ar gael i'w cyfoedion mewn addysg amser llawn. Mae angen i gydraddoldeb o ran parch rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd gael ei ategu gan gydraddoldeb o ran cefnogaeth i ddysgwyr.  
..... Tudalen 19

**Casgliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi awydd Llywodraeth Cymru i greu llwybr clir i brentisiaid barhau mewn addysg alwedigaethol i lefel gradd a thu hwnt.  
..... Tudalen 22

**Casgliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn nodi datblygiad parhaus prentisiaethau lefel gradd a'r nifer uwch o fframweithiau sydd ar gael yn Lloegr, o'i gymharu â Chymru. Er bod camau ar waith i fynd i'r afael â hyn, nid yw'n glir a yw'r cyflymdra yn ddigonol..... Tudalen 22

**Casgliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr oedi cyn cyhoeddi Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, yr oedd ei ddisgwyll yn wreiddiol ar ddechrau 2017, ac erbyn hyn fe'i disgwyllir yn gynnar yn 2018. .... Tudalen 24

**Casgliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r bwriad i sefydlu model Prentisiaid Iau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed, ac mae'n cefnogi nod y Gweinidog i'w gyflwyno ledled Cymru..... Tudalen 24

**Casgliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith o ddatblygu prentisiaethau lefel gradd ac yn nodi'r gwahaniaeth yn nifer y fframweithiau sydd ar gael yn Lloegr, o'i gymharu â Chymru..... Tudalen 25

**Casgliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi symudiad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu cymwysterau lefel uwch mewn egwyddor. Cred fod hyn yn hanfodol os yw Cymru am symud i economi gwerth uwch. Fodd bynnag, mae gan randdeiliaid bryderon clir mewn adrannau allweddol - yn enwedig sectorau sylfaenol fel gofal cymdeithasol - y gallai hyn arwain at ddiffyg cefnogaeth ar gyfer y cymwysterau lefel mynediad sydd eu hangen. Nid yw'n glir a yw'r Llywodraeth wedi darbwyllo rhanddeiliaid yn llwyr bod ganddi raglen gwbl ddatblygedig i fynd i'r afael â'r pryderon hyn..... Tudalen 25

**Casgliad 12.** Mae angen ymyrraeth gynharach wrth ddarparu cyngor annibynnol ar yrfaedd i ddisgyblion cyn iddynt wneud eu dewisiadau TGAU. Nid yw'n glir sut y dylid darparu hyn. .... Tudalen 29

**Casgliad 13.** Yn yr hinsawdd gyfredol, ymddengys yn annhebygol y bydd y cyrff sy'n ymwneud yn bennaf â chodi ymwybyddiaeth o brentisiaethau a'u buddion - e.e. Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, Gyrfa Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru - yn gallu manteisio ar unrhyw adnoddau ychwanegol i wneud y gwaith hwn..... Tudalen 29

**Casgliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ac yn cefnogi'r ymagwedd gydgysylltiedig gan Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y ddogfen strategaeth Newid Bywydau. Dull tair blynedd yw hwn a bydd yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau cyllid a chymorth cyson i'r strategaeth drwy gydol y cyfnod o dair blynedd os yw am lwyddo. .... Tudalen 30

**Casgliad 15.** Mae'r dystiolaeth yn dangos y pwysigrwydd y mae rhanddeiliaid yn ei roi ar brofiad gwaith cyn 16 oed ac mae'r Pwyllgor yn pryderu bod nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan wedi gostwng yn sydyn. .... Tudalen 32

**Casgliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y Gyfnewidfa Addysg Busnes yn cael ei chyflwyno'n ddiweddarach eleni, a bydd yn cymryd diddordeb brwd mewn p'un a yw hi'n llwyddo i annog busnesau ac ysgolion i gydweithio i gynnig mwy o leoliadau profiad gwaith ystyrlon..... Tudalen 32

**Casgliad 17.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad clir y Gweinidog i wella'r Gwasanaeth Paru Prentisiaeth. Mae'r dystiolaeth yn glir bod hyn yn angenrheidiol a'i bod yn hen bryd gwneud hyn. Bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb brwd yn natblygiad y gwasanaethau.....34

## Atodiad A – Cylch gorchwyl

Mae'r Pwyllgor wedi rhoi sylw i'r materion a ganlyn:

- Adolygu'r cynnydd ers adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes yn 2012: **Prentisiaethau yng Nghymru** (PDF 403KB)
- Mae hyn yn cynnwys edrych ar rôl cyrff allweddol: y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol; Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB); a'r Cynghorau Sgiliau Sector
- Craffu ar hygyrchedd cyngor annibynnol ar yrfaedd mewn perthynas â phrentisiaethau ac opsiynau galwedigaethol eraill?
- Yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, naill ai mewn ysgolion, gan Gyrfa Cymru, ar-lein neu o ffynonellau eraill?
- A yw Gwasanaeth Paru Prentisiaethau Gyrfa Cymru yn addas at y diben?
- Sut y gellir sicrhau yr un parch i lwybrau galwedigaethol ac academaidd?
- Ymchwilio i'r prif rwystrau rhag cychwyn prentisiaethau?
- Pa mor hygyrch yw prentisiaethau i bobl ag anableddau (o bob oedran)?
- Sut y gellir cefnogi pobl o'r teuluoedd incwm isaf i gychwyn prentisiaethau?
- Pa arferion da sy'n bodoli a beth arall y gellir ei wneud i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw?
- Craffu ar y gwaith o ddatblygu prentisiaethau lefel uwch, gyda chefnogaeth sefydliadau addysg bellach ac uwch?
- Pa mor effeithiol yw'r dilyniant rhwng mathau eraill o ddysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau a rhwng lefelau 2, 3, 4 a'r prentisiaethau uchod?
- Sut y gellir gwella ymgysylltiad cyflogwyr â phrentisiaethau?